

# Anhwylderau Cyhyrysgerbydol

**Mae ffisiotherapi yn effeithiol o safbwynt triniaeth glinigol a chost wrth reoli a thrin anhwylderau cyhyrysgerbydol. Anhwylderau cyhyrsgerbydol yw un o'r problemau mwyaf cyffredin a gaiff eu trin gan ffisiotherapyddion**

## Ffisiotherapi

Gall ymyriad cynnar gyda ffisiotherapi ostwng faint o amser y mae pobl yn wael ac mae'n hanfodol er mwyn atal problem aciwt rhag datblygu'n broblem gronig.

Mae dwy o adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi darparu mynediad cynnar i ffisiotherapi ar gyfer aelodau staff gydag anhwylderau cyhyrysgerbydol. Dywedodd 80% ohonynt fod ffisiotherapi wedi eu hatal rhag cymryd amser o'r gwaith, ac o'r sawl oedd eisoes i ffwrdd yn sâl, dywedodd dros 80% fod ffisiotherapi wedi lleihau eu cyfnod ymaith o'r gwaith. Dywedodd y sawl a ymatebodd fod y gwasanaeth wedi gostwng eu habsenoldeb gan chwe wythnos ar gyfartaledd.[1]

Canmolwyd Ymddiriedolaeth Ysbyty Gorllewin Suffolk, Bury St Edmunds, gyn adroddiad Boorman[2] am arbed £170,000 drwy system atgyfeirio ar sail blaenoriaeth i ffisiotherapydd lleol ar gyfer staff wedi eu hanafu. Am £21,000 roedd wedi sicrhau gostyngiad o 40% yn nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch ac arbedion o £170,000 yng nghost anhwylderau cyhyrysgerbydol.




Yn seiliedig ar ystadegau diweddaraf y Weithrediadaeth Iechyd a Diogelwch[3] mae gan 227,000 o anhwylder cyhyrysgerbydol yn y cefn, 215,000 yn y cymalau uchaf neu'r gwddf a 96,000 yn y cymylau isaf. Poen yng ngwaelod y cefn yw prif reswm absenoldeb hirdymor o'r gwaith ymysg gweithwyr corfforol ac anhwylderau cyhyrysberbydol yw'r rheswm mwyaf cyffredin am ymgynghoriadau mynych gyda meddygon teulu, gan gyfrif am hyd at 30% o ymweliadau gofal sylfaenol.[4]

## Maint y Broblem !

- Anhwylderau cyhyrysgerbydol yn gyson yw'r salwch cysylltiedig â gwaith a adroddwyd amlaf ers i gofnodion ddechrau. Yn 2008/09 amcangyfrifwyd fod **538,000** o bobl ym Mhrydain Fawr, oedd wedi gweithio yn y flwyddyn ddiwethaf, yn credu eu bod yn dioddef o anhwylderau cyhyrysgerbodol a achoswyd neu a waethogwyd gan eu gwaith presennol neu flaenorol. Amcangyfrifwyd y collwyd **9.3 miliwn** o ddyddiau gwaith (cyfwerth â diwrnod llawn) yn y Deyrnas Unedig oherwydd anhwylderau cyhyrysgerbydol yn 2008/09.[5]
- O fewn y GIG caiff **hanner absenoldeb salwch** ei achosi gan anhwylderau cyhyrysgerbydol.

## Hunanatgyfeiriad

Profodd hunanatgyfeiriad at ffysiotherapi yn llwyddiannus yn glinigol gyda boddhad uchel ymysg cleientiaid yn ogystal â bod yn effeithiol o ran cost.

Canfuwyd bod y cynlluniau peilot hunanatgyfeiriad a gynhaliwyd ar draws chwe safle GIG yn Lloegr rhwng 2006 a 2008 wedi gostwng nifer y costau cysylltiedig i'r GIG yn enwedig o ran asesiadau a rhoi presgripsiynau gyda 75% o gleifion a ddewisodd hunanatgyfeiriad heb fod angen

▸▸

## Cost Anhwylderau Cyhyrysgerbydol

- Mae **22 y cant** o bobl sydd ar Fudd-dal Analluogrwydd (Lwfans Cefnogi Cyflogaeth) gydag anhwylderau cyhyrysgerbydol [7]
- Mae anhwylderau cyhyrysgerbydol yn costio tua **£7.4biliwn** i gymdeithas bob blwyddyn.[8,9]

presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau. Yn ychwanegol, ni fu unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau a gostyngodd hunanatgyfeiriad absenoldeb yn y gwaith ymysg cleifion. [6]

Canfu dadansoddiad o hunanatgyfeiriad yn yr Alban fod y gost ar gyfartaledd o bennod yn £95.48 ar gyfartaledd i'r sawl a hunanatgyfeiriodd, £113.24 ar gyfer atgyfeiriad a awgrymwyd gan feddyg teulu a £126.17 ar gyfer atgyfeiriad gan feddyg teulu. Dynodwyd bod hunanatgyfeiriad yn arbed tua £2.5 miliwn y flwyddyn i GIG yr Alban.[10]

Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Doncaster a Bassetlaw gynllun peilot llwyddiannus ar wasanaeth hunanatgyfeirio at ffisi therapydd ar gyfer 6500 o staff yn 2005. Cynigwyd y gwasanaeth yn barhaol ar ôl i asesiad ddynodi arbedion posibl o fwy na £330,000. Fe'i defnyddir gan aelodau o staff ym mhob cornel o'r Ymddiriedolaeth ac mae'n cynnig amser aros o 2.8 diwrnod ar gyfartaledd. Mae dros hanner y defnyddwyr yn dweud y byddent wedi cymryd amser o'r gwaith pe na bai'r gwasanaeth ar gael.

Yng Nghaergrawnt, gostyngodd hunanatgyfeiriad at wasanaethau cleifion allanol anhwylderau cyhyrysgerbydol oherwydd bod meddygon teulu yn gwneud llai o ddefnydd o bresgripsiynau a phrofion diagnostig. Nid oedd 75% o'r cleifion a hunanatgyfeiriodd angen presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau gan roi arbediad ar gyfartaledd o £12,000 i bob meddygfa.

## Asesiad a chefnogaeth dros y ffôn

Canfuwyd bod asesu difrifoldeb cyflwr claf dros y ffôn yn effeithiol o safbwynt adnoddau. Mae brysbennu dros y ffôn yn arbed amser i'r claf ac i'r ffisiotherapydd yn ogystal ag arbed costau gan sicrhau blaenoriaeth i'r sawl sydd angen triniaeth frys.

Lle'n briodol, mae cefnogaeth ddilynol dros y ffôn yn cael ei ystyried yn effeithiol o safbwynt triniaeth glinigol a chost gan alluogi cleifion i reoli eu cyflwr gan osgoi ailwaelu.

Defnyddiodd gwasanaeth ffisiotherapi iechyd galwedigaethol frysbennu a chefnogaeth ddilynol dros y ffôn fel rhan o raglen i drin anhwylderau cyhyrysgerbol mewn staff yn GIG Lothian. Arbedwyd dros £300,000 mewn cyflogau'n unig drwy ostwng absenoldeb salwch a bu gostyngiad o 74 y cant mewn dychweliad anhwylderau cyhyrysgerbydol naw mis ar ôl y rhaglen.[11]

## Casgliadau

Mae mynediad cyflym i ffisiotherapi ar gyfer pobl gydag anhwylderau cyhyrsgerbydol yn effeithiol yn glinigol ac a ran cost ar gyfer y gwasanaeth iechyd, yn cynnwys meddygon teulu, ar gyfer cyflogwyr a chymdeithas. Mae ffisiotherapyddion wedi helpu i arloesi dulliau newydd o ddarparu mynediad cyflym o fewn gwasanaethau sydd eisoes ar gael.

## Gwybodaeth bellach


**Uned Ymholiadau'r CSP**
**Ffôn:** 0207 306 6666
**E-bost:** enquiries@csp.org.uk
**Gwefan:** www.csp.org.uk


skipp SUPPORTING KNOWLEDGE IN PHYSIOTHERAPY PRACTICE

CHARTERED SOCIETY OF PHYSIOTHERAPY

## Cyfeiriadau


1. Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Management of sickness absence in the Northern Ireland Civil Service. Report by the Comptroller and Auditor General NIA 132/07-08, 22 Mai 2008. Norwich: TSO (Y Llyfrfa); 2008URL: www.niauditoffice.gov.uk/pubs/Absence/Absence-final.pdf

2. Boorman S. NHS health and well-being review: interim report. Llundain: Adran Iechyd; 2009 URL: www.nhshealthandwellbeing.org/pdfs/NHS%20Staff%20H&WB%20Review%20Final%20Report%20VFinal%2020-11-09.pdf

3. Gweithrediadaeth Iechyd a Diogelwch. Tabl SWIT3W12 - 2008/09. URL: www.hse.gov.uk/statistics/lfs/0809/swit3w12.htm

4. NICE. Low back pain: early management of persistent non-specific low back pain. Llundain: NICE; 2009. URL: www.nice.org.uk/nicemedia/live/11887/44343/44343.pdf

5. Gweithrediadaeth Iechyd a Diogelwch. Musculoskeletal disorders. URL: www.hse.gov.uk/statistics/causdis/musculoskeletal/index.htm

6. Adrfan Iechyd. Self-referral pilots to musculoskeletal physiotherapy and the implications for improving access to other AHP services. Leeds: Adran iechyd; 2008. URL: www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_089516

7. Kemp PA, Davidson J. Routes onto Incapacity Benefit: Findings from a survey of recent claimants. Adran Gwaith a Phensiynau, Adroddiad Ymchwil 469. URL: http://research.dwp.gov.uk/asd/asd5/rports2007-2008/rrep469.pdf

8. Bevan S, Passmore E, Mahdon M. Fit for work? Musculoskeletal Disorders and Labour Market Participation. Llundain: Y Sefydliad Gwaith; 2007. URL: www.workfoundation.co.uk/assets/docs/publications/44_fit_for_work_small.pdf

9. Gweithrediadaeth Iechyd a Diogelwch. Interim update of the "Costs to Britain of Workplace Accidents and Work-Related Ill Health". Llundain: Gweithrediadaeh Iechyd a Diogelwch 2004. URL: www.hse.gov.uk/statistics/pdf/costs.pdf

10. Gwybodaeth Ffisiotherapi Hunanatrgyfeirio. Tabl costau diweddaredig (2010). URL: www.selfreferralphysioinfo.com/pp.html

11. Trueland J. Staff scheme an all-round winner. Frontline 2008; 14(10): 10. URL: www.csp.org.uk/frontline/article/staff-scheme-all-round-winner


000568 P&D OCT 2011